Prifysgol Bangor

YSGOL ASTUDIAETHAU TRWY'R GYMRAEG

Dyddiad	:	28 Ionawr 2009
Presennol	:	Dr. Llion Jones (Cadeirydd), Miss Hunydd Andrews, Mr. Ifor Gruffydd, Dr Lowri Hughes, Mr. Bryn Jones, Miss Sioned Medi Jones, Dr. Gwyn Lewis, Mrs. Delyth Murphy, Dr Paula Roberts, Yr Athro Gerwyn Wiliams, Miss Sarah Williams, Mr. Emyr Roberts (Ysgrifennydd).
Ymddiheuriadau	:	Dr. Jason Walford Davies, Mr. Dewi Wyn Jones, Yr Athro Densil Morgan, Dr. Delyth Morris, Mrs. Mairwen Owen, Dr. Sara Parry, Dr. Robert Pope, Mrs. Gwerfyl Wyn Roberts, Dr. Enlli Môn Thomas, Dr. Catrin Haf Williams, Mrs. Gwenan Williams, Dr. Prysor Williams, Dr. Einir Young.

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd Miss Hunydd Andrews, Mr Bryn Jones a Miss Sarah Williams i'w cyfarfod cyntaf o'r Ysgol.

2. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Ysgol a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2008 fel cofnod cywir.

3. MATERION YN CODI

(i) Eitem 3(i) Coleg Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad – Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

- Mae'r Ysgol wedi gwneud cais ac wedi llwyddo i gael Cymrodoriaeth a fydd yn cael ei hysbysebu'n fuan.
- Mae'r ysgol wedi gwneud cais trwy'r Panel Rhwydwaith i gynnal grwpiau ffocws i sefydlu dealltwriaeth glir o'r galw am fodiwlau cyfrwng Cymraeg a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg.
- Disgwylir enwebiad ar gyfer pencampwr i'r Coleg yn fuan.

(ii) Eitem 3(v) Fforwm Deiliaid Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau

Adroddwyd bod y Fforwm Deiliaid Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau wedi cyfarfod gyda chyflwyniad gan Dr. Gwyn Lewis a Mr. Bryn Jones ar ddysgu dwyieithog. Yn y cyfarfod nesaf ceir cyflwyniad ar ymchwil a chyhoeddi.

(iii) Eitem 3(vi) – Eisteddfodau

Adroddwyd y bydd uned fach o staff yr Adran Recriwtio yn Eisteddfod yr Urdd eleni yng Nghaerdydd. Bydd stondin fawr, sef pabell ar wahân yn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala a bydd angen gwirfoddolwyr. **Cytunwyd** trafod hyn yn y cyfarfod nesaf gyda golwg ar gynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio rhaglen o weithgareddau.

(iv) Eitem 5 – Dyfodol Neuadd John Morris Jones

Adroddwyd bod trafodaethau'n parhau am ddyfodol Neuadd John Morris Jones. Roedd y myfyrwyr wedi cael cynnig adeilad Tegfan a rhan o Bryn Dinas ar Safle'r Ffriddoedd. Fodd bynnag, roedd canran o'r myfyrwyr wedi datgan eu bod yn dymuno aros yn y safle presennol ar Ffordd y Coleg. Roeddent hefyd wedi datgan eu dymuniad i sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth newydd ar ffurf y neuadd bresennol gyda ffreutur ac ystafell gymunedol a threfniant cwota llenwi a fydd yn gwarchod Cymreictod y neuadd.

Bydd trafodaethau pellach gyda'r Is-Ganghellor, yr Adran Ystadau, Pennaeth y Neuaddau a'r myfyrwyr.

Nododd yr aelodau bryder bod yr ansicrwydd a'r oedi yn niweidiol i ymdrechion recriwtio ac yn rhoi delwedd negyddol am Fangor yng Nghymru. Mae ffigyrau ceisiadau i lawr ar draws y Coleg Celfyddydau a'r Dyniaethau. Nodwyd bod angen rhoi neges gref i'r myfyrwyr am eu dyletswydd ar gyfer y dyfodol.

(v) Eitem 6 – Wythnos y Glas – Llawlyfr Modiwlau

Yn dilyn llwyddiant y llawlyfr modiwlau blwyddyn gyntaf adroddwyd y bwriedir darparu llyfryn modiwlau Cymraeg a dwyieithog yr ail a'r drydedd flwyddyn ar gyfer y cyfnod cyn gofrestru . Wrth edrych ymlaen at wythnos groeso 2009, nodwyd bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda Mrs Kim Davies gyda golwg ar ddefnyddio'r Arweinwyr Cyfoed i hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

(vi) Eitem 7 – Cofrestr Ymarferwyr Cyfrwng Cymraeg

Adroddwyd bod cyswllt wedi'i wneud gyda 55 o staff nad oedd ar y rhestr ymarferwyr cyfrwng Cymraeg. Roedd ystadegau o'r Swyddfa Adnoddau Dynol yn dangos bod 102 wedi datgan eu bod yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a 127 wedi datgan eu bod yn gallu. Mae oddeutu 200 o aelodau staff ar restr e-bost yr Ysgol.

4. ADRODDIAD TASIG

Cyflwynwyd crynodeb gan y Cadeirydd o drafodaethau'r Grŵp Tasg Strategaeth yr Iaith Gymraeg yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2009.

- Yn dilyn ymadawiad Ms Meri Huws, Dirprwy Is-Ganghellor i swydd newydd yng Ngholeg y Drindod rhannwyd rhai o'i dyletswyddau cyfrwng Cymraeg fel a ganlyn.

Cadeirydd y Pwyllgor Dwyieithrwydd – Mrs. Marian Wyn Jones
Cadeirydd TASIG – Yr Athro Merfyn Jones
Cadeirydd PYCI – Dr. Llion Jones
Cadeirydd Grŵp Cymraeg i Oedolion – Yr Athro Merfyn Jones
Grŵp Sector HESG – Yr Athro Colin Baker

- Bwriedir adolygu aelodaeth y Grŵp Tasg er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ar draws y Colegau a'r Brifysgol. Yn ogystal bydd angen sicrhau enwau pencampwyr Cyfrwng Cymraeg ar Fyrddau Rheoli'r holl Golegau.

- Nodwyd pryder am y ffigyrau HESA a chafwyd rhagolwg o'r ffigyrau cyfrwng Cymraeg ar gyfer 2007/08 lle dangosir gostyngiad yn y nifer CALL cyfrwng Cymraeg, yn bennaf ym meysydd Nyrsio ac Addysg Gydol Oes. Awgrymwyd y gallai rhai o'r ffigyrau fod yn gamarweiniol a bod angen tynhau systemau'r Brifysgol ar gyfer cofnodi myfyrwyr cyfwng Cymraeg.

- Mae'r Ganolfan Addysg Athrawon ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi'i sefydlu ar y cyd gan Brifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth. Bydd y ddarpariaeth cynradd i gyd ym Mangor gyda'r ddarpariaeth uwchradd wedi'i rhannu, gyda Bangor yn colli Saesneg, Ieithoedd Modern Tramor a Thechnoleg Gwybodaeth.

- Mae gwaith y Paneli Rhwydwaith yn symud ymlaen yn effeithiol gyda llawer o brojectau newydd yn dod i Fangor. Fodd bynnag, roedd ychydig o bryder am fod teimlad mewn amryw o'r paneli bod ychydig o densiwn ac anghytuno ar y broses o gymeradwyo prosiectau. Bwriedir argymell bod angen mwy o ganllawiau i'r perwyl hwn.

- Nodwyd bod yr Athro Colin Baker a Dr. Llion Jones yn aelodau o Fwrdd Cynllunio y Coleg Ffederal ond nid fel cynrychiolwyr Prifysgol Bangor. Mae aelodaeth y Bwrdd yn eang gyda dau gyfarfod wedi'u cynnal yn barod. Bydd trydydd cyfarfod yr wythnos nesaf i edrych ar fanylion y trefniant newydd. Cynhelir cyfarfod agored yn y canolbarth ddiwedd mis Mawrth ac wedyn bydd yr Athro Robin Williams yn cyflwyno ei adroddiad i'r gweinidog.

5. CYMRODORIAETHAU AC YSGOLORAIETHAU 2009/2010

Adroddwyd gan y Cadeirydd yn dilyn trafodaeth gychwynnol yn TASIG (6 Hydref 2008) a phroses o ymgynghori gyda'r Swyddfa Gynllunio, bod ceisiadau am gymrodoriaethau ac ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg yn y meysydd isod wedi'u cyflwyno. Rhoddwyd pwyslais sylweddol y tro hwn ar sbarduno datblygiadau mewn meysydd lle na cheir darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd ond lle mae potensial clir i greu darpariaeth ddeniadol ac ystyrlon.

Cymrodoriaethau
Gwyddorau Chwaraeon
Ieithyddiaeth
Cemeg
Addysg – Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ysgoloriaethau
Gwyddorau Cyfrifiadurol
Sgriptio – Cymraeg/Diwydiannau Creadigol
Hanes (meysydd ar wahân i Hanes Cymru)

Cyfarfu'r Panel Dyfarnu ar y 10fed o Ragfyr a chafwyd gwybod cyn y gwyliau fod 6 o'r 7 cais wedi bod yn llwyddiannus. (Ni lwyddwyd gyda'r cais am Gymrodoriaeth ym maes Addysg, ond mae'n werth cofio fod Cymrodoriaeth wag i'w llenwi ym maes Addysg/Cwnsela ers y llynedd).

Mae'r amserlen wedi'i thynnu'n 'mlaen eleni er mwyn rhoi digon o amser i recriwtio. Bydd hysbyseb yn ymddangos yn Golwg yn fuan a bydd angen i Ysgolion unigol hysbysebu hefyd.

6. PODLEDU A'R GYMRAEG

Adroddwyd bod Mrs. Bethan Wyn Jones i fod i roi cyflwyniad ar Bodledu a'r Gymraeg ond yn anffodus roedd yn sâl. **Cytunwyd** gofyn i Mrs. Jones roi cyflwyniad i gyfarfod nesaf yr Ysgol (Gweithredu BWJ).

7. DWYIEITHRWYDD MEWN ADDYSG UWCH YNG NGHANADA

Derbyniwyd adroddiad gan Dr. Lowri Hughes, Swyddog Datblygu a Hyrwyddo'r Gymraeg ar ei thrafodaethau gyda swyddogion o sefydliadau addysg uwch ym Mhrifysgolion Ottawa a Choleg Glendon sy'n rhan o Brifysgol York yng Nghanada. Roedd wedi cael cyfle i ymweld â'r sefydliadau yng Nghanada ac roedd swyddogion o Ottawa wedi bod ym Mangor. Pwrpas yr ymweliadau oedd –
(1) gweld sut mae sefydliadau addysg uwch yng Nghanada yn hyrwyddo dwyieithrwydd a
(2) gweld a ydy rhai o'r prosiectau maen nhw'n eu datblygu yn berthnasol i Brifysgol Bangor. Roedd y cyfarfodydd cychwynnol wedi bod yn ffrwythlon iawn a gall nifer o'r prosiectau y mae'r prifysgolion yng Nghanada yn eu datblygu gynnig syniadau Fangor (e.e. cynllun trochi Prifysgol Ottawa). Nodwyd bod y trafodaethau wedi bod yn bwysig o ran dau gyd-destun penodol – yr agenda sgiliau dwyieithog a'r strwythurau cefnogi y gellir eu datblygu er mwyn cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg (sy'n bwysig iawn yng nghyd-destun trafodaethau yn ymwneud â'r 'Coleg Ffederal'). Mae Prifysgol Ottawa hefyd yn datblygu cwrs MA Cynllunio Ieithyddol a gobeithir y bydd hi'n bosib creu perthynas rhwng y cwrs hwnnw a chwrs MA Cynllunio Ieithyddol Prifysgol Bangor. Y bwriad felly yw cynnal a datblygu'r berthynas gyda'r sefydliadau yng Nghanada ac edrych ar ffyrdd o weithredu'r cynlluniau a ddysgwyd amdanynt mewn modd sy'n briodol i Brifysgol Bangor.

Diolchodd y Cadeirydd i Dr. Hughes am ei chyflwyniad.

8. ARGYFWNG AMSERLENNU

Adroddwyd gan y Cadeirydd bod llythyr wedi'i gylchredeg gan y Dirprwy Is-Ganghellor yn hysbysu staff am yr argyfwng amserlennu o fewn y Brifysgol. Bydd angen chwynnu modiwlau ond cafwyd sicrwydd na fydd hyn yn effeithio ar y modiwlau cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Nodwyd ei bod yn holl bwysig gwarchod modiwlau cyfrwng Cymraeg.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Adroddwyd gan y Cadeirydd ei fod yn dymuno neilltuo cyfarfod nesaf yr Ysgol i ganolbwyntio ar faterion yn ymwneud â recriwtio. Nodwyd nad yw y dyddiad sydd yn y calendr, sef 20 Ebrill 2009 yn gyfleus i'r Uned Recriwtio. **Cytunwyd** pennu dyddiad arall ar gyfer cyfarfod nesaf yr Ysgol (Gweithredu ER/SMJ).